## ATODLEN 2

## Y GOFYNION SYDD I'W BODLONI GAN BERSONAU NAD YDYNT YN ATHRAWON CYMWYSEDIG ER MWYN CYFLAWNI'R GWAITH A BENNIR YN RHEOLIAD 7

### Athrawon addysg bellach cymwysedig sy'n addysgu cyrsiau galwedigaethol o fewn y cwricwlwm lleol

**6.**—(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys yn achos personau a chanddynt gymwysterau sy'n ofynnol o dan reoliad 3 o Reoliadau 2002.

(2) Caiff personau a grybwyllir yn is-baragraff (1) gyflawni gwaith a bennir yn rheoliad 7 mewn ysgol i'r graddau mai cyflwyno cyrsiau astudio galwedigaethol sy'n ffurfio rhan neu'r cyfan o gwricwlwm lleol a ffurfiwyd gan awdurdod lleol yn unol ag adran 116A o Ddeddf Addysg 2002(**1**) neu gan Weinidogion Cymru yn unol ag adran 33A o Ddeddf Dysgu a Medrau 2000(**2**) yw'r gwaith.

(**1**) Fel a fewnosodwyd gan adran 4 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 (2009 mccc Rhif 1) ac a gychwynnwyd ar 7 Rhagfyr 2009 (O.S. 2009/3174, erthygl 2(1)(b)) at ddibenion neilltuol ac ar 1 Ionawr 2010 (O.S. 2009/3174, erthygl 2(2)(c)) at weddill y dibenion.

(**2**) Fel a fewnosodwyd gan adran 22 o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 ond nas cychwynnwyd ar ddyddiad y Rheoliadau hyn.